**Yr e-weithdy cyfieithu bach**
**ar y lefelau Cyflawn a Sylfaenol, i'r Gymraeg ac i'r Saesneg**

**<u>14 Gorffennaf 2025</u>**

## Gwybodaeth gyffredinol

### Cyflwyniad

Bwriad yr e-weithdy cyfieithu bach yw cynnig cyfle i chi ymarfer a gwella eich sgiliau cyfieithu yn eich amser eich hun, ac o fewn amserlen a strwythur pendant. Cewch sylwadau ar eich cyfieithiad gan diwtor sy'n gyfieithydd profiadol ac yn aelod o Gofrestr Marcwyr Arholiadau Aelodaeth Testun y Gymdeithas.

Mae'r e-weithdy cyfieithu bach wedi profi ei hun i fod yn ddull effeithiol a phoblogaidd o ddysgu ac o gynnig hyfforddiant i bobl yn eu hamser eu hunain. Gallwch chi ddilyn yr e-weithdy cyfieithu bach fel rhan o'ch paratoadau at sefyll Arholiadau Aelodaeth Testun y Gymdeithas, neu fel rhan o'ch datblygiad proffesiynol fel cyfieithydd. Beth bynnag fo eich rheswm, dyma ddull ardderchog o ddatblygu a mireinio'ch sgiliau cyfieithu a chael barn a sylwadau annibynnol, er mwyn sicrhau bod eich gwaith yn gwella'n barhaus.

Yn yr e-weithdy cyfieithu bach:
- byddwch yn cyfieithu un darn yn unig;
- cewch wythnos i lunio'ch cyfieithiad;
- bydd y darn i'w gyfieithu o'r un hyd a safon â darnau'r arholiad perthnasol;
- bydd popeth yn digwydd trwy gyswllt e-bost yn unig.

Disgwylir i chi feddu ar sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg sy'n cyfateb i ddisgwyliadau lefel yr e-weithdy cyfieithu bach yr ydych yn ei ddilyn.

### Cofrestru

Bydd yr e-weithdy cyfieithu bach yn dechrau dydd Llun, 14 Gorffennaf 2025.

Y dyddiad olaf i gofrestru fydd **dydd Iau, 10 Gorffennaf 2025, cyn 12:00pm**.

- Mae nifer cyfyngedig o lefydd. Fe'ch anogwn, felly, i gofrestru a thalu cyn gynted ag y gallwch, a pheidio â'i gadael hi tan y funud olaf, gan mai'r cyntaf i'r felin fydd hi wrth neilltuo llefydd yn yr e-weithdy cyfieithu bach.

### Trefn yr e-weithdy cyfieithu bach a'ch ymrwymiad chi

Bydd yr e-weithdy cyfieithu bach yn dilyn yr amserlen hon:

**Dydd Llun, 14 Gorffennaf 2025**
Ar ddiwrnod cyntaf yr e-weithdy cyfieithu bach cewch e-bost a fydd yn cynnwys y canlynol:
- y darn i'w gyfieithu;
- y cyfarwyddiadau a'r wybodaeth am yr e-weithdy cyfieithu bach;
- enw a manylion cyswllt eich tiwtor.

**Dydd Llun, 21 Gorffennaf 2025:**
Bydd gofyn i chi anfon eich cyfieithiad at eich tiwtor cyn 5:00pm ar y diwrnod hwn. Felly, cewch wythnos i lunio'ch cyfieithiad.

**Dydd Iau, 31 Gorffennaf 2025:**
Y diwrnod olaf i'ch tiwtor anfon ei sylwadau ar eich cyfieithiad atoch. Bydd yn gwneud hyn cyn 5:00pm.

Gofynnir i chi ymrwymo i gadw at yr amserlen uchod ac anfon eich cyfieithiad at eich tiwtor cyn y terfyn amser i wneud hynny. Mae'n bwysig, felly, eich bod chi'n cynllunio'ch amser a'ch gwaith ar gyfer yr wythnos sydd gennych i lunio'ch cyfieithiad.

**Y deilliannau dysgu**

Ar ddiwedd yr e-weithdy cyfieithu bach:

- bydd gennych well syniad o ofynion a disgwyliadau sefyll arholiadau'r Gymdeithas ar y lefel Gyflawn neu ar y lefel Sylfaenol;

- byddwch yn deall yn well yr hyn sydd ei angen arnoch i gyrraedd y safon ofynnol i lwyddo;

- byddwch wedi cael sylwadau gwrthrychol ac annibynnol ar eich cyfieithu gan gyfieithydd proffesiynol a fydd o gymorth i chi wrth i chi ystyried sut i wella a datblygu'ch hun fel cyfieithydd.

Er gwybodaeth, ymysg y gwendidau a welir yn gyson yn yr arholiadau yw diffyg sylw manwl i union ystyr y gwreiddiol, yr angen i ymgeiswyr wirio'u gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno sgript oedd yn cyfleu'r neges gywir, a chyfieithiadau nad oeddynt yn darllen yn naturiol yn yr iaith darged.

**Cofrestru**

Rhaid i bob unigolyn lenwi'r ffurflen gofrestru cyn y caiff ddilyn yr e-weithdy cyfieithu bach. Dylid e-bostio'r ffurflen gofrestru i swyddfa@cyfieithwyr.cymru .

**Talu am yr e-weithdy cyfieithu bach**

Bydd y taliadau cofrestru am un e-weithdy cyfieithu bach yn:
- £40.00 i aelodau'r Gymdeithas, yn ogystal â'r categorïau cyswllt.
- £45.00 i bawb arall
Nid oes TAW.

**Tynnu'n ôl neu ganslo**

Os bydd dysgwr yn tynnu'n ôl, mae'n rhaid iddo yrru e-bost at swyddfa@cyfieithwyr.cymru i roi gwybod i ni. Y telerau wrth wneud hyn fydd:
- 7 diwrnod neu ragor cyn dyddiad cau'r e-weithdy cyfieithu, ad-delir 75% o'r ffi.
- 3-6 diwrnod cyn dyddiad cau'r e-weithdy cyfieithu, ad-delir 50% o'r ffi.
- 1-2 diwrnod cyn dyddiad cau'r e-weithdy cyfieithu neu wedi hynny, dim ad-daliad.

Os mai Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fydd yn canslo, cewch ad-daliad llawn.